

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 23<sup>AIN</sup> HYDREF 2019 YNG NGHANOLFAN GWYTHERIN**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

- 1.1** Croesawyd bawb gan Elen H Edwards (EHE).  
**1.2** Presennol Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), Gwynfor Davies (GD), Garffild Ll Lewis (GLL), Mark Davies (MD) a Gwydion Jones (GJ)  
**1.3** Ymddiheuriadau: Clwyd Roberts (CR)  
**1.4** Absennol: Gwyn Williams (GW)

Croesawyd Mark Davies fel Cynghorydd newydd.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

EHE ar gyfer 7.3 yn rhinwedd ei swydd.

**3 COFNODION I'W GWIRO 2<sup>IL</sup> HYDREF 2019**

EW yn cynnig ac AV yn eilio eu bod yn gywir.

8.1 cywiro i gynnwys anfonneb awdit.

**4 MATERION YN CODI 3) UCHOD**

7.2: Cododd REW fod y llyfr i gynghorwyr newydd yn y cwpwrdd yn Llangernyw.

EW wedi cysylltu â Lucy Steele yn y Cyngor Sir. Wedi derbyn taflen i gynghorwyr newydd ond ddim ei hangen gan fod y llyfr ar gael.

EW i gysylltu ac Arfon Parry i adio Mark Davies fel Cynghorydd ar y wefan.

4 (8.2): Hysbysodd GD fod dyddiad y cyfweliad â'r banc wedi ei ohurio tan ganol Tachwedd.

5.1: Meira Woosnam wedi cysylltu â EW ar ôl gweld cofnodion Gorffennaf fod y Cyngor Sir yn talu am ail-leoli'r fainc solar. Y Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am y costau ail-leoli, roedd camddealltwriaeth wedi bod ynglyn â hyn.

Cododd REW fater hen ddogfennau'r Cyngor, trafodwyd lle i fynd â nhw, petai i Ddinbych at y gweddill neu i Gonwy. Cafwyd trafodaeth eu casglu o Ddinbych a'u symud i Gonwy. Dogfennau i fynd i'r cwpwrdd y Llangernyw tan iddynt fynd i'r archifdy.

**5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD**

- 5.1** Mainc Solar: Trafodwyd ail leoli a'r safleoedd drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Codod MD petai'r fainc yn cael ei lleoli ger yr arhosfan bws wrth yr ysgol buasai angen caniatad gan yr adran briffyrdd. EW wedi bod yn yr Ardd Goffa a wedi sylwi fod cysgod yno. Cododd EHE y gellir symud y fainc i Bandy Tudur neu Gwytherin ond penderfynwyd ei chadw'n Llangernyw er mwyn cael y defnydd mwyaf posibl ohoni. Trafodwyd cael prisiau am y gwaith symud i'r ddau safle (ger wal Tŷ'r Gôf a gyferbyn â'r amgueddfa) cyn gwneud penderfyniad terfynnol. MD a DR i fynd i weld y safleoedd cyn mynd ymlaen.

\*Cyrhaeddodd GJ yn ystod y drafodaeth.

**6 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 6.1** 0/46735: dim gwrthwynebiad, cefnogi.

**7 MATERION Y CYNGOR**

- 7.1 Rheoliadau Sefydlog y Cyngor:** angen ychwanegu diwygiad gan Llywodraeth Cymru. EHE i ddelio â hwn, EHE, EW a GW i gyfarfod cyn y cyfarfod nesaf.
- 7.2 Fforwm Cyngor Tref a Cymuned:** EHE yn adrodd o'r cyfarfod diwethaf fod Cyngor Conwy wedi rhoi ffigyrau gerbron ynglyn â gwasanaethau e.e. toiledau, parciau ayyb i'r Cynghorau Tref a Chymuned gymeryd y gwasanaethau drosodd. Y perygl a'r bygythiad os na fuasai'r Cynghorau yma'n cymeryd y gwasanaethau drosodd, y buasent yn cael eu colli er mwyn arbed arian i'r Cyngor Sir. GLL hefyd yn adrodd fod y Cyngor Sir am allanoli'r gwasanaethau er mwyn arbed arian. Bydd syrjery yn cael ei chynnal gan y Cyngor ar 6<sup>ed</sup> a 7<sup>fed</sup> Tachwedd er mwyn i'r Cynghorau gael trafod. GLL yn ymddiheuro nad yw yn medru mynychu. EHE wedi cadw lle yn syrjery Glasdir rhwng 5-6yh 7<sup>fed</sup> Tachwedd. DR a EW am fynychu ar ran y Cyngor Cymuned. Trafodwyd fod y ffigyrau gan Conwy am wariant blynyddol ar y gwasanaethau yn uchel iawn a buasai'r oblygiadau cyfrifoldeb ac yswiriant yn uchel iawn i'r Cyngor Cymuned. EW am holi cwmni yswiriant y Cyngor os yw parciau ayyb yn rywbeth gall y Cyngor Cymuned eu hyswirio.  
Trafodwyd efallai buasai'r Cyngor Sir yn trosglwyddo dyletswyddau megis torri gwrychoedd ayyb i'r Cyngor Cymuned yn y dyfodol.
- 7.3 Swyddogaethau'r Cynghorwyr:** newidiadau angen eu gwneud fel drafodwyd:  
Cadeirydd: Clwyd Roberts  
Cymeryd gofal o ebost y Cyngor: EHE i gario ymlaen â hwn.  
Derbyn gohebiaeth a biliau a ffeilio: Y Cadeirydd  
Trefnu i osod copi o'r Agenda: Y Cadeirydd  
Pris Gyswllt Ceisiadau Cynllunio: CR  
Bwcio ystafell ar gyfer cyfarfodydd: Gwytherin – EW, Llangernyw - DR a Pandy Tudur – GJ.  
EHE i wneud rhaglen dyddiadau 2020, EW, DR a GJ i drefnu erbyn y cyfarfod nesaf.  
Gosod Agenda misol: CR fel Cadeirydd  
Ymateb i unrhyw ohebiaeth: Cynghorwyr i gyd i ddelio fel mae materion yn codi.  
Talu biliau a'u gyrru: GD  
Cais TAW: GD i drafod efo Iona Edwards, Cyfrifydd am y ffordd orau ymlaen â hwn.  
Talu sieciau i mewn i'r banc: REW  
Ysgrifennydd Ariannol: EW  
Mynwentydd: REW, AV, CR a MD.  
Paratoi datganiad chwarterol ar incwm a gwariant: DR  
Cronfa Bro Cernyw: Pawb ac Elwen Owen fel gweinyddydd y Gronfa.  
Cofnodion: Clerc Cofnodion (Enlli Vaughan)  
Yswiriant: EW  
Awdit (Gwaith Cychwynol): DR & EHE

Enlli Vaughan i ddiweddarau'r ddogfen dyletswyddau (gweler atodiad 1).

\*Eitem ar agenda nesaf: gwneud calendr o bwyntiau pwysig mae angen i'r Cyngor ddelio a nhw'n flynyddol.

## **8 MATERION ARIANNOL**

- 8.1 Mandad Banc:** dim diweddariad gan EW fis yma.

## **9 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR**

GLL yn adrodd nad yw wedi cael ymateb gan Mrs Macceson-Sandbach am yr Hen Efail.  
Trafododd fod prosiect ar y gweill i sefydlu fforwm busnes i'r ardal drwy grŵp llywio Hiraethog er mwyn busnesau bach a chanolig yn yr ardal i gymdeithasu efo'u gilydd a rhannu syniadau ayyb. Bydd noson gychwynol i weld faint o ddiddordeb sydd yna i fforwm

o'r fath ar 28<sup>ain</sup> Tachwedd yng Ngherrigydrudion. Bydd GLL yn gyrru gwybodaeth pellach allan yn fuan.

EW yn gofyn ydi'n amser i'r Cyngor wneud sesiynau taro mewn i'r cyhoedd gan gynnwys GLL fel Cynghorydd Sir. Trafodwyd y buasai hyn yn syniad da ar gyfer Chwefror/Mawrth 2020. Buasai hwn hefyd yn gyfle i wasanaethau eraill fel y Gwasanaeth Tân, Heddlu ayyb ddod i rannu gwybodaeth efo'r cyhoedd hefyd. Cyfle i'r cyhoedd ddatgan beth yw ei blaenoriaethau o ran disgwyliadau o'r Cyngor Cymuned a hefyd gweld pwy yw eu cynghorwyr ayyb.

\*I'w drafod eto fis nesaf – ar agenda nesaf.

## 10 BILIAU

**10.1** D Evans Cilowen am dorri glaswellt yn y fynwent £150. Talwyd.

**10.2** Canolfan Gwytherin: £48. Talwyd.

**10.3** Bil Dŵr: £12.66. Talwyd.

**10.4** Cyflog Enlli: £63.13. Talwyd.

GD yn codi fod biliau yn dod ar y wê, gofyn os oedd angen printio rhain er mwyn awdit. Penderfynwyd fod ffolder newydd ar ebost y Cyngor yn cael ei sefydlu er mwy cadw rhain yn electroneg petai eu hangen yn y dyfodol.

REW efo llyfr anfonebau ar gyfer mynwentydd.

DR wedi paratoi dogfen Gwariant Cyngor Cymuned Llangernyw 2019-2020 i'r Cynghorwyr edrych drosdo. Trafodwyd y ddogfen, dim yn sefyll allan i'w nodi. £15,668.66 yn y banc ddiwedd Medi. Diolchwyd i DR am ei gwaith cywrain wrth baratoi'r ddogfen wariant.

## 11 MATERION LLEOL

**EW** wedi rhoi posteri fyny yn yr hysbysfyddau a'r Gadlas am y sgipiau yn Pandy a Gwytherin.

**AV** yn adrodd fod aelod o'r cyhoedd wedi dweud wrthi fod baw ci yn cael ei adael ger y bin yn y parc yn Llangernyw.

Gohebiaeth wedi ei bostio i gartrefi yn y gymuned gan Nextdoor Llangernyw. Anog aelodau o'r cyhoedd i anwybyddu'r llythyr, edrych fel sgam. EHE am basio hwn ymlaen i Safonau Masnach.

**MD** gor-yrru trwy Llangernyw. Gofyn os oedd modd newid cyflymder i 20mya ger yr ysgol. GLL yn adrodd yn anffodus does dim digon o dystiolaeth i gefnogi na chaniatau rhoi rhain mewn lle. Llywodraeth Cymru ar fin rhoi cyfyngiad cyflymdra o 20mya tu allan i ysgolion Cymru. Trafodaeth i ddefnyddio arian y Cyngor i roi arwyddion i fyny. Plismon ffug hefyd wedi ei drafod.

**DR** diolch am strimio ar hyd palmentydd yn Llangernyw.

**EW** wedi derbyn gohebiaeth gan Urdd Gobaith Cymru yn gofyn am arian, penderfynwyd peidio rhoi gan fod y Cyngor yn cefnogi llawer o achosion lleol. Gohebiaeth gan SLCC, dim pwrpas ymuno ar hyn o bryd.

**GD** wedi derbyn £12 i'r cyfrif banc gan Commonwealth War Graves.

## 12 CYFARFOD NESAF

27<sup>ain</sup> Tachwedd 2019

Cyfarfod yn dod i ben 9:25pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan.

**Canllawiau Cronfa Bro Cernyw:** EHE yn codi hwn ar ddiwedd y cyfarfod. Wedi ei ddiwygio ddiwethaf yn 2013, cyfle i ddiwygio eto fel a ganlyn:

Newid 3): dyddiad a benodir gan y pwyllgor.

Dileu 4) gan fod cyfrif banc newydd wedi ei sefydlu.

8) Dileu Cylchlythyr.

9) Cywirio Cernyw.

10) Newid Clerc i Weinyddydd y Gronfa.

**REW** wedi cael cais gan y Dosbarth Gwnio, wedi cael siec gan Gronfa Bro Cernyw, ond y siec wedi pasio dyddiad cyflwyno i'r banc, gofyn oes modd cael siec arall. Penderfynwyd fod hyn yn iawn, gofyn am y siec wreiddiol yn ôl cyn paratoi un newydd.

**Atodiad 1****SWYDDOGAETHAU'R CYNGHORWYR**

*Fel a gytnwyd yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llangernyw ar y 23ain Hydref 2019 (eitem 7.3 yn y cofnodion)*

<b>Swyddogaeth</b>	<b>Cynghorydd fydd yng ngofal y swyddogaeth</b>
Gofalu am gyfrif e-bost y Cyngor ( <a href="mailto:cyngorcymunedllangernyw@gmail.com">cyngorcymunedllangernyw@gmail.com</a> )	Elen Hâf Edwards
Derbyn gohebiaeth a biliau, a ffeilio'r wybodaeth.	Y Cadeirydd
Trefnu i osod copi o'r Agenda ar hysbysfyrdau'r tair ward	Y Cadeirydd
Prif gyswllt Ceisiadau Cynllunio	Clwyd Roberts
Bwcio ystafell ar gyfer y cyfarfodydd y Cyngor	Einir Williams Diane Roberts Gwydion Jones
Gosod Agenda misol. Rhannu'r agenda ar e-bost i'r cynghorwyr ynghyd â chofnodion y cyfarfod diwethaf.	Cadeirydd
Ymateb i unrhyw ohebiaeth ar ran y Cyngor.	PAWB
Talu biliau a'u gyrru. Gwneud cais TAW ran y Cyngor	Gwynfor Davies
Talu sieciau mewn i'r banc	Emlyn Williams
Mynwentydd: <ul style="list-style-type: none"> <li>● Prif bwynt Cyswllt</li> <li>● Cofrestr Claddu</li> <li>● Tâl claddu gan ymgymerydd</li> </ul>	Pwyllgor Mynwentydd – Emlyn Williams (Prif Bwynt Cyswllt) Ann Vaughan Clwyd Roberts Mark Davies
Paratoi datganiad chwarterol i'r Cyngor a'i incwm a gwariant	Diane Roberts
Cronfa Bro Cernyw	PAWB ac Elwen Owen fel Gweinyddydd y Gronfa
Cofnodion: <ul style="list-style-type: none"> <li>● Cymeryd cofnodion yn ystod y cyfarfod</li> <li>● Teipio'r cofnodion</li> <li>● Trefnu iddyn nhw gael eu cyfieithu</li> <li>● Trefnu iddyn nhw gael eu rhoi ar y wefan unwaith maen nhw wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor Cymuned.</li> </ul>	Enlli Vaughan (Clerc Cofnodion)